OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1026 (Cy.93)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007

Wedi'u gwneud - -	*27 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*28 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 76, 77 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007 a deuant i rym ar 28 Mawrth 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**) wedi'u diwygio yn unol â'r ddarpariaeth a ganlyn yn y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 10(1) (y Datganiad) —

ar ddiwedd rheoliad 10(1)(b) mewnosoder —

"A determination may provide that allowances to be paid in respect of continuing education and training by ophthalmic medical practitioners and opticians other than corporate opticians may be paid in respect of a period beginning on a date earlier than the date of the determination if, taking the determination as a whole, it is not detrimental to the persons to whose remuneration it relates.".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1986/975.